



**ADRODDIAD GAN Y
PWYLLGOR DEDDFAU**

**LEGISLATION COMMITTEE
REPORT**

Gorchymyn Pysgota am Gregyn Bylchog (Cymru) 2005

Mae'r Gorchymyn yma'n rheoleiddio pysgota am gregyn bylchog yn nyfroedd Cymru a hynny drwy gyfyngu maint y barau tynnu a all gael eu defnyddio gan gychod pysgota Prydain a thrwy gyfyngu ar nifer y llusgrwydi cregyn bylchog a all gael eu tynnu o fewn 3 milltir fôr o'r lan a'r tu hwnt i 3 milltir fôr o'r lan. Mae'r Gorchymyn hefyd yn cyflwyno tymor caeedig mewn perthynas â physgota cregyn bylchog ac yn pennu isafswm maint y cregyn bylchog a all gael eu cario. Mae darpariaeth yn cael ei gwneud hefyd i swyddogion pysgodfeydd môr Prydain orfodi'r Gorchymyn.

Rheol Sefydlog 11.7

Mae'r pwyntiau canlynol wedi'u nodi i fod yn destun adroddiad o dan Reol Sefydlog 11.7.

Yn y diffiniad o "gorchymyn cyfatebol" sydd wedi'i nodi yn erthygl 2, mae anghysondeb rhwng y testun Cymraeg a'r testun Saesneg yn yr ystyr bod y testun Cymraeg wedi hepgor cyfeiriad at adran 5 o Ddeddf Pysgod Môr (Cadwraeth) 1967 a'i fod hefyd wedi hepgor cyfeiriad at erthygl 7 o'r Gorchymyn [Rheol Sefydlog 11.7(vi)]. Gall hyn gael ei gywiro drwy gyfrwng Memorandwm Cywiriadau.

Mae anghysondeb arall rhwng y testun Cymraeg a'r testun Saesneg i'w weld yn y diffiniad o "tow bar" sydd yn y testun Saesneg wedi'i gyfieithu fel "bar tynnu" er mai "bar halio" sydd wedi'i ddefnyddio yn y

testun Cymraeg. "Bar halio" sydd wedi'i ddefnyddio hefyd drwy erthygl 4 i gyd yn y testun Cymraeg. [Rheol Sefydlog 11.7(vi)]. Mae angen datrys yr anghysondeb yma. O weld mai "tynnu" sydd wedi'i ddefnyddio yn y testun Cymraeg am y ferf "to tow", credir mai "bar tynnu" yw'r cyfieithiad priodol ar gyfer "tow bar". Gall yr anghysondeb yma gael ei gywiro drwy gyfrwng Memorandwm Cywiriadau.

Mae Rheoliadau 3 a 4 yn cynnwys cyfeiriadau at "nautical miles". Yn y testun Cymraeg mae'r term wedi'i gyfieithu fel "milltir fôr" ac fel "môr filltir" [Rheol Sefydlog 11.7(v)]. Mae angen bod yn gyson yn y derminoleg a "milltir fôr" yw'r ymadrodd gorau. Mân wall drafftio yw hwn a gall gael ei gywiro drwy gyfrwng Memorandwm Cywiriadau.

Sylwadau

Bu Pwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad yn craffu ar y Gorchymyn yma, ac fe gafodd gwelliannau i'r gorchymyn fel yr oedd wedi'i gynnig yn wreiddiol eu cynnig a'u derbyn gan y Gweinidog. O ganlyniad i hynny, cafodd erthygl 4 newydd ei mewnosod. Yn y testun Cymraeg, mae erthygl 4 wedi cadw'r pennawd sy'n gymwys i erthygl 5, hynny yw "manyleb llusgrwydi cregyn bylchog"); mae angen pennawd ar erthygl 4 y testun Cymraeg i gyfateb i "Restriction on size of tow bars". Gall hyn gael ei gywiro wrth gyhoeddi'r Gorchymyn.

Mae erthygl 6(2) yn cyfeirio at "paragraff 3". Gan mai cyfeirio at baragraff (3) yw'r bwriad, dylai "3" ymddangos fel "(3)". Gall hyn hefyd gael ei gywiro wrth gyhoeddi'r Gorchymyn.

Glyn Davies AC

Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau

21 Mehefin 2005